Brîff Brexit

Plaid Cymru | Party of Wales

Dyma'r pumed rhifyn o'r Briffiad Brexit; gobeithio y gwnewch ei fwynhau. Mae llawer mwy o wybodaeth am yr holl faterion hyn yn Adran Brexit ein gwefan.
Mae tri rhan i'r Briffiad:

1) Crynhoi yn y Senedd (Cynulliad)
2) Newyddion o Senedd Ewrop
3) Newyddion o Brifddinas yr Ymerodraeth (San Steffan)

Os oes gennych unrhyw adborth, rhowch wybod i ni trwy ebostio post@plaid.cymru

Crynhoi o'r Cynulliad

Gan ein llefarydd Brexit yn y Senedd Steffan Lewis AC a'r Tîm Cynulliad

Mae'r broses gyfreithiol ar gyfer gadael yr UE gyda nifer o oblygiadau posib i gytundeb cyfansoddiadol Cymru a chenhedloedd datganoledig eraill. Rhoddwyd yr hawl i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn achos yn y Goruchaf Lys ar gychwyn Erthygl 50, y cam cyntaf tuag at Brexit. Gan fod cyfraith yr UE wedi'i ysgrifennu yn y ddeddfwriaeth sy'n sylfaen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd Erthygl 50 yn newid gallu deddfwriaethol y Cynulliad a phwerau Llywodraeth Cymru. Mae Cwnsler Cyffredinol Cymru, Mick Antoniw AC, wedi dadlau bod angen felly deddf Seneddol wedi'i ddilyn gan y Cynulliad yn rhoi ei chaniatâd i newid ei gallu deddfwriaethol er mwyn cychwyn y broses. Disgwylir y feirniadaeth yn y Flwyddyn Newydd.
Cafwyd Steffan Lewis AC, llefarydd Plaid Cymru ar Brexit, ei gyfweld gan The Guardian a rhybuddiodd am y peryglon mae Brexit yn gosod i hawliau cyfansoddiadol Cymru. Dadlodd am fodel 'ymuno am yn ôl' o drafodaethau, wrth fynd trwy bob adran bolisi un unigol er mwyn negodi'r cytundeb gorau posib i Gymru. Derbyniodd Steffan Lewis hefyd taw fel y buddiolwr

mwyaf o gyllid UE yn y Deyrnas Gyfunol, mae Cymru yn gadael ei hun yn 'agored iawn' i effeithiau potensial economaidd Brexit. Dywedodd, 'Dyma pam o ran y cyd-destun ôl – ymadael, mae'n rhaid inni sicrhau parhad yr un lefelau o gyllid o leiaf. Nid ydym yn gallu esgus bod y DG yn wladwriaeth homogenaidd.'
Yn y cyfamser, dywedodd Leanne Wood y gall rheolau llym ar fewnfudo yn dilyn Brexit achosi difrod i fusnesau a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n ddibynnol ar lafur dramor. Er enghraifft, cafwyd 30% o feddygon yng Nghymru eu hyfforddi dramor. Pwysleisiodd nad yw'r ffeithiau ynglŷn â mewnfudo i Gymru yn cefnogi honiadau UKIP ei fod yn achosi problemau. Yn hytrach, dylwn ganolbwyntio ar amddiffyn cymunedau Cymraeg, ein hiaith ac ein diwylliant, a'u hybu i ffynnu.

O Senedd Ewrop

gan Jill Evans ASE & a Thîm Plaid Cymru Ewrop

Cafwyd prif negodwr ar gyfer Senedd Ewrop, Guy Verhofstadt, cyfarfod gyda Gweithgor EFA/Gwyrddion. Cyhoeddodd ei strategaeth a phwysleisiodd pwysigrwydd Senedd Ewrop yn y trafodaethau ar gyfer ymadael. Byddai adroddiad cynhwysfawr yn cael ei llunio a'i phleidleisio arni gan y senedd ym mis Ebrill – ar ôl i Erthygl 50 gychwyn a chyn penderfyniad y Cyngor ym mis Mai ar ganllawiau ar gyfer y mandad.

Fel nifer o bobl eraill sy'n teimlo'n gryf am fod yn Gymry ac yn Ewropeaidd, mae Jill yn cefnogi ei gynnig i gynnwys aelodaeth ohebol UE yn y cydraniad. Derbyniodd lobi enfawr ynglŷn â hyn gan etholwyr. Credai Guy Verhofstadt fod ymchwilio'r posibilrwydd yma yn arwydd fod yr UE yn agored i drafodaethau. Does dim drysau ar gau. Mae'n helpu hefyd i wrthddweud y sylw negyddol parhaol ar yr UE yn wasg y DG.

Siaradai Jill mewn cyfarfod Culture Action in Europe ym Mrwsel ar effaith gadael yr UE ar y celfyddydau, y cyfryngau a'r sectorau diwylliannol. Pleidleisiodd 96% o'r sectorau yma i aros yn yr UE.

Cyfarfyddodd Jill gyda Chymdeithas Feddygol Prydain i drafod materion megis rhyddid i symud, gofal iechyd traws-ffiniol, ymchwil ac adnabyddiaeth cymwysterau. Mae'n glir bydd gadael yr UE yn cael effaith niweidiol ar y sector iechyd ar draws yr UE ac nid yn y DG yn unig. Cynhelir cyfarfod Cyngor Ewropeaidd heddiw ym Mrwsel lle fydd y Prif Weinidog yn mynychu. Ni fydd Brexit yn eitem sylweddol ar yr agenda.

Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd

gan Lefarydd Brexit Plaid Cymru yn San Steffan Jonathan Edwards AS a'r Tîm

Ar y penwythnos yn dilyn ein brîff blaenorol, gwnaeth Arglwydd Plaid Cymru, Dafydd Wigley ymyrraeth sylweddol yn Nhŷ'r Arglwyddi, yn galw am yr hyn a alwodd yn "*Brexit triple lock*". Amlinellodd tri cham y dylai Llywodraeth y DG cymryd er mwyn sicrhau fod y cyhoedd yn cael ei ymgynghori yn llawn ar y berthynas fydd rhwng yr UE a'r Wladwriaeth Brydeinig.

1. Yn gyntaf, galwodd ar y Llywodraeth i amlinellu yr hyn mae hi eisiau ei weld fel canlyniad Brexit delfrydol cyn i San Steffan bleidleisio ar gychwyn Erthygl 50;
2. Os nad yw hynny'n dihwydd, dywedodd y dylai Seneddau'r DG, gan gynnwys Seneddau yng Nghymru a'r Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, fod â'r hawl i dynnu eu cefnogaeth am ddechrau Erthygl 50 os nad ydynt yn hapus gyda'r safiad gymerai Llywodraeth y DG; ac
3. Os nad yw hynny'n dihwydd, bod angen ymgynghoriad gyda'r cyhoedd unwaith eto mewn refferendwm ar ganlyniad y trafodaethau gyda'r Undeb Ewropeaidd.

Ers hynny, mae yna bleidlais sylweddol wedi cymryd le yn Nhŷ'r Cyffredin ar y cyntaf o'r galwadau yma.

Cyflwynodd y Blaid Lafur gynnig yn galw ar Lywodraeth y DG cyhoeddi 'cynllun' cyn iddyn nhw ofyn i'r Senedd bleidleisio ar Erthygl 50. Cyflwynwyd gwelliant wedyn gan y Ceidwadwyr i'r cynnig hynny yn galw am ymrwymiad gan y Tŷ Cyffredin i gefnogi Erthygl 50.

Gwnaeth y Ceidwadwyr gytundeb gyda'r Blaid Lafur i gefnogi ei gynnig i alw am gynllun os gytunodd y Blaid Lafur i gefnogi ei gwelliant i gefnogi Erthygl 50 yn ei dro.

I'n hanghrediniaeth lwyr, cytunodd y Blaid Lafur. A dyma ble mae'n mynd yn gymhleth...
I ddechrau, wrth gefnogi gwelliant y Ceidwadwyr, mae'r Blaid Lafur wedi cytuno i gefnogi cychwyn Erthygl 50, beth bynnag yw cynnwys y cynllun bydd Llywodraeth y DG yn ei gyhoeddi. Maen nhw wedi tanseilio'r holl bwrpas o'i chynnig yn y lle cyntaf. Mae'r Llywodraeth nawr yn gallu cyhoeddi beth bynnag hoffai yn ei chynllun a bydd y Blaid Lafur wedi ymrwymo i'w gefnogi.

Yn ail, mae'r dewis o derminoleg – galw am 'gynllun', yn hytrach na 'phapur gwyn' er enghraifft – yn arwyddocaol. Does dim diffyniad o beth bydd rhaid i'r cynllun ei gynnwys. Yn dechnegol, gall y Llywodraeth gyhoeddi papur A4 yn dweud taw ei chynllun nhw yw cyflawni Brexit coch, gwyn a glas ac yn ôl pob golwg bydd Llafur nawr yn ei chefnogi.

Beth sydd angen arnom yw dogfen gynhwysfawr, yn amlinellu safiad y llywodraeth ar y farchnad sengl a'r Undeb Dollau fel lleiafswm, ac i'r Senedd cael yr hawl i gynnig gwelliannau. Gwnaed yn glir iawn gan Blaid Cymru ar y diwrnod na fyddwn yn cefnogi'r 'brad' hwn.
Yn y cyfamser, mae'n ymgyrch cwestiynau Brexit yn parhau, ac mae atebion yn dechrau dod i mewn. Byddwn yn gwneud sylwadau ar rain yn y dyddiau nesaf. Gwyliwch y gofod hwn.

Dilynwch @JonathanPlaid a @PlaidCymru ar Drydar i gadw lan gyda'r diweddara ar waith Grŵp San Steffan ar Brexit.